# Taflen waith: **Yr Holocost a Chymru: General Paper and Box Manufacturing Company yn Ystad Fasnachu Trefforest**



*Gweithwyr yn y General Paper and Box Manufacturing Company yn atgyfnerthu corneli bocsys wedi'u plygu ymlaen llaw.*

*Delwedd trwy garedigrwydd George Schoenmann.*

**TASG 1**

Darllenwch y wybodaeth am gwmni General Paper and Box Manufacturing a'r teulu Schoenmann ac yna gwrandewch ar ddau glip hanes llafar o George Schoenmann yn disgrifio ei gyfnod yn yr ysgol a ffatri ei dad yn Nhrefforest.

**Cwmni General Paper and Box Manufacturing a Theulu Schoenmann.**[1]

Ganed George Schoenmann yn Fienna ym 1934. Roedd tad George, Paul, dyn busnes toreithiog, wedi bod yn berchen ar ffatri papur sigaréts yn Fienna ond ar ôl yr *Anschluss* (cyfeddiant Awstria i'r Almaen Natsïaidd ar 12 Mawrth 1938), atafaelodd y Natsïaid bob busnes Iddewig yn Awstria. Derbyniodd Paul ganiatâd i sefydlu'r General Paper & Box Manufacturing Company ar Ystad

[1] 'End of an era for Rizla factory', yn *WalesOnline* <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/end-era-rizla-factory-2356398> [cyrchwyd 11 Mai 2022].

Fasnachu Trefforest yn 1938, a daeth y teulu i Gymru fel ffoaduriaid ym 1939 a symud i'r Eglwys Newydd, Caerdydd.

Roedd y cwmni'n arbenigo mewn dau faes: bocsys cardbord moethus a phapur sigaréts. Cafodd y bocsys eu rhoi at ei gilydd â llaw yn y ffatri. Yn ystod y rhyfel, fe wnaeth offer ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd.

Prynodd Rizla y cwmni yn 1948 a gorfodwyd Paul allan yn 1951. Wedi hynny fe ddechreuodd gwmni dodrefn ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mynychodd George yr ysgol yn Aberhonddu ac ar ôl y rhyfel bu'n gweithio i lawer o'r busnesau Iddewig yn Nhrefforest, yn ogystal â chwmni dodrefn ei dad. Sefydlodd ei gwmni ei hun yn gwerthu darnau sbâr trydanol ym 1979, cyn ymddeol yn 70 oed.

Gan weithio mewn parau, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam roedd y plant eraill yn ysgol George yn ei fwlio?
- Sut fyddech chi'n teimlo pe bai rhywun yn eich bwlio oherwydd eich cenedligrwydd/crefydd?
- Sut gallai'r ysgol fod wedi gwneud i George deimlo'n fwy cynwysedig?
- Yn gyffredinol, dim ond un cês oedd yn cael ei ganiatáu i blant a ddaeth i'r DU fynd â nhw. Roedd eitemau arbennig o werthfawr yn aml yn cael eu cadw mewn blwch bach y tu mewn i'r cês. Pe baech chi'n cael eich gorfodi i ffoi o'ch cartref, pa eiddo fyddech chi am fynd gyda chi? A allent ffitio y tu mewn i gês? Pa eitemau fyddech chi'n eu rhoi yn eich blwch bach?

**TASG 2**

Crëwch eich blwch eich hun gan ddilyn y cyfarwyddiadau isod:

- Torrwch allan y templed blwch ar y ddalen o bapur a roddwyd i chi.
- Gallwch chi addurno'r blwch mewn unrhyw ffordd y dymunwch - rhai syniadau posibl: blwch moethus fel y rhai a gynhyrchwyd gan General Paper & Box; lluniau o'r gwrthrychau y byddech chi'n mynd â nhw gyda chi wrth adael eich mamwlad; atgofion pwysig o gartref. Bydd yn haws addurno'r blwch cyn ei roi at ei gilydd.
- Plygwch ar hyd y llinellau toredig a gludwch/tapiwch gyda'i gilydd.

A fyddai'r eiddo a restrwyd gennych yn **Nhasg 1** wedi ffitio yn eich blwch?

